# Ein Bro

Newyddion

Ysgol Bro Hyddgen

News

















Rhifyn:
Edition: 28

Pasg 2020 / Easter 2020

# Gair gan y Pennaeth / Letter from the Headteacher

Annwyl Rieni / Ofalwyr

Rydw i wir yn gobeithio eich bod chi a'ch anwyliaid yn cadw'n ddiogel ac yn iach.

Ddechrau mis Mawrth, roedd llai nag 1% o ddisgyblion ledled y DU yn cael eu haddysgu yn y cartref. O hyn ymlaen, bydd y ffigwr hwnnw'n codi i bron 100%. Efallai y bydd rhai ohonoch yn gweld yr her o gefnogi eich plentyn gyda'i astudiaethau gartref yn gyffrous iawn, gan ei weld fel cyfle gwych i gymryd rhan lawn yn addysg eich plentyn. Fodd bynnag, yr wyf bron yn sicr y bydd llawer ohonoch yn gweld y posibilrwydd yn un brawychus. Peidiwch â phoeni! Athrawon eich plentyn sy'n gyfrifol am gynnydd academaidd eich plentyn. Mae'r rhifyn arbennig hwn o ***Ein Bro*** yn ymwneud â sicrhau eich bod chi a'ch plentyn yn gallu ymdrin â dysgu ar-lein yn hyderus.

Yn gyntaf, mae'n bwysig bod gan bawb agwedd gadarnhaol tuag at y math hwn o ddysgu a bod pawb yn barod i roi cynnig arni. Os ydych chi'n cael problemau, yna mae'n bwysig eich bod yn cysylltu â'r ysgol drwy ddolen y ddesg gymorth ar wefan yr ysgol. Defnyddiwch y Ddesg Gymorth os ydych chi'n cael trafferth defnyddio TEAMS neu os nad oes gennych chi gyfrifiadur. Gallwch hefyd ffonio'r ysgol a gadael neges ar ein peiriant ateb.

Os ydych chi'n cael anhawster i ddeall y gwaith, gallwch gysylltu â'r athro drwy sgwrsio yn TEAMS neu e-bostio eich athro yn uniongyrchol - mae cyfeiriad ebost pawb ar y wefan. Byddwn yn anfon canllaw i chi i'ch helpu gyda gweithio o gartref. Gwelir y canllaw hefyd yn y rhifyn hwn o ***Ein Bro.***

Ar nodyn arall, byddaf yn cynhyrchu ail gylchlythyr yn ddiweddarach y tymor hwn i bawb a oedd ar fin sefyll TGAU, Safon Uwch a chymwysterau galwedigaethol yr haf hwn. Bydd hyn yn esbonio ymhellach y broses ar gyfer dyfarnu graddau. Ar hyn o bryd, mae ysgolion yn aros i gyrff dyfarnu cyrsiau galwedigaethol gysylltu â ni i egluro disgwyliadau yn y maes. Os oes unrhyw beth arall y gallwn ei wneud i'ch cefnogi peidiwch â bod ofn cysylltu. Mwynhewch yr her o ddysgu ar-lein!

Yn gywir

**Dafydd Jones**

**Pennaeth**

*Dear Parents / Carers*

*I truly hope you and your loved ones are safe and well.*

*At the beginning of March, less than 1% of pupils across the UK were home educated. As of now, that figure will rise to nearly 100%. Some of you may find the prospect of supporting your child through their home study very exciting, seeing it as a great opportunity to get fully involved in your child's education. However, I am almost certain that many of you will find the prospect rather daunting. Please don't worry! Responsibility for your child's academic progress still rests firmly with your child's teachers. This special edition of our newsletter is all about ensuring you and your child can approach online learning with confidence.*

*Firstly, it is important that everyone has an "I can" attitude to this type of learning and that everyone is willing to have a go. If you are experiencing problems, then it is important that you contact the school through the help desk link on the school web site – use it you have difficulty accessing TEAMS or if you haven't got access to a computer. You can also call the school and leave a message on our answer machine.*

*If you have difficulty understanding the work, then you can contact the teacher through the Chat function in Teams or email your teacher directly. We will be sending you a guide to help you with working from home; it is also contained in this edition of* ***Ein Bro.***

*On a separate note, I will be producing a second newsletter later this half term for everyone who was due to sit GCSE, A-level and vocational qualifications this summer. This will further explain the process for awarding grades. At present, schools are waiting to be contacted by vocational course awarding bodies to clarify expectations in this particular area. As always, if there is anything else we can do by way of support; please do not hesitate to ask. Enjoy the online learning challenge!*

*Yours sincerely*

***Dafydd Jones***

***Head Teacher***

# Gair gan y Pennaeth / Letter from the Headteacher




## Bwletin Dosbarthiadau ac Adrannau
## *Class and Subject Bulletins*



Gyda'n disgyblion yn gweithio gartref, mae rhai o'r dosbarthiadau a'r pynciau wedi crynhoi gwaith y bydd angen i ddisgyblion ei gwblhau dros y tymor nesaf.

Yn y Cyfnod Sylfaen, byddwch yn gallu gweld y rhain yn y botwm ***Lawrlwythiadau*** ar dudalen cartref y Campws Cynradd ar wefan yr ysgol.

Ar gyfer CA2-5 gallwch gyrchu'r waith sydd wedi'i osod drwy ddefnyddio ***Microsoft Teams***.

Mae'r rhifyn hwn o ***Ein Bro*** yn gyfuniad o'r papur newyddion arferol i ddathlu llwyddiant ein disgyblion ond hefyd y tro hwn, i gyfathrebu'n fyr yr hyn sydd angen i blant ei wneud er mwyn dysgu o bell. Cadwch lygad am logo'r enfys am yr erthyglau hyn.

Mae'r rhifyn hwn o ***Ein Bro*** hefyd yn manylu ar sut gall rhieni a phlant gael gafael ar gymorth er mwyn dysgu gartref.

*With our pupils working from home, some of the classes and subjects have summarised work that pupils will need to complete over the next term.*

*In the Foundation Phase, you will be able to access work through the **Downloads** button on the Primary Campus home page on the school website*

*For KS2-5 you can access the work set using **Microsoft Teams**.*

*This issue of **Ein Bro** is a combination of the usual news paper articles celebrating the success of our pupils and some brief communication from teachers informing parents and pupils about what they need to do in order to continue learning. Look out for the rainbow logo for these artiles*

*This issue of Ein Bro also details how to access help with learning from home for both parents and pupils.*

# Cogemeg / Chefistry



Croeso mawr i Gareth Ward o Ynys Hir!

*Welcome to Gareth Ward from Ynys Hir!*



**Alldaith Technoleg, Gwyddoniaeth a TGCH - Cogemeg**

Roedd hi'n fraint oedd cael croesawu Gareth Ward prif gogydd Ynysir i'r ysgol fel rhan o'r alldaith Cogemeg - Technoleg, Gwyddoniaeth a TGCh. Fel rhan o'r alldaith Cogemeg bydd disgyblion Blwyddyn 7 yn dylunio, creu a chynnal te prynhawn i fusnesau lleol ac yn dysgu am y wyddoniaeth tu ôl i goginio. Yn dilyn ymddangosiad diweddar ar ***James Martin Saturday Kitchen*** a ***Masterchef the professionals*** daeth Gareth Ward i ymweld ag Ysgol Bro Hyddgen i roi cyflwyniad i ddisgyblion Blwyddyn 7 ar sut i gynnal te prynhawn llwyddiannus, ynghyd â thrafod ei brofiadau fel cogydd. Roedd ymweliad Gareth Ward yn ysbrydoledig iawn ac yn addysgiadol tu hwnt. Gosododd sylfaen ardderchog i ddisgyblion Blwyddyn 7 fynd i'r afael â her yr alldaith Cogemeg. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr iawn i weld canlyniad y te prynhawn cyn gwyliau'r Pasg.

***Technology, Science and ICT Expedition– Chefistry***


*We were very privileged to welcome Gareth Ward—the head chef from Ynyshir to Bro Hyddgen as part of our Chefistry expedition - Technology, Science and ICT. Year 7 pupils will design, make and conduct their very own afternoon tea for local businesses and learn about the Science behind cooking. Following his recent appearances on **James Martin Saturday Kitchen** and **Masterchef the Professionals,** Gareth Ward visited the school to give Year 7 pupils a presentation on how to conduct a successful afternoon tea; also to share his experiences in the world of cooking. Gareth Ward's visit was very inspirational as well very educational - an excellent foundation to start the Chefistry expedition. We look forward to seeing the result of the afternoon tea before the Easter holidays.*

# Diwrnod Trosglwyddo BL6









**Diwrnod Trosglwyddo Technoleg a TGCh Blwyddyn 6 - 5/2/20**

Braf oedd croesawu disgyblion Blwyddyn 6 o ysgolion cynradd y dalgylch - y Campws Cynradd, Carno, Glantwymyn, Llanbrynmair, Dyffryn Dulas Corris, Pennal a Talybont - i'r Campws Uwchradd dydd Mercher 2 Chwefror i gymryd rhan yn ein diwrnod trosglwyddo Technoleg a TGCH. Dyma ddiwrnod lle'r oedd y disgyblion yn cael y cyfle i ddylunio a chreu robot a'i raglennu i wneud cyfres o dasgau fel dilyn llinell ar drac.

Gweithiodd y disgyblion yn ardderchog o fewn timau i gystadlu drwy raglennu robot i rasio o gwmpas y trac, creu cyflwyniad o'r hyn maent wedi'i ddysgu a chreu wyneb i'r robot gan ddefnyddio'r torrwr laser. Braf oedd gweld y disgyblion yn mwynhau, yn ymddwyn yn ardderchog ac yn cydweithio'n arbennig o dda o fewn y timau i gystadlu am y robot gorau. Diwrnod llawn profiadau addysgiadol a chyfle gwych i ddod i adnabod ei gilydd, yr athrawon a'r ysgol cyn dechrau yma ym mis Medi. Rydym yn edrych ymlaen at groesawu Blwyddyn 6 yma eto ym mis Mehefin.

***Year 6 Technology and ICT transition day - 5/2/20***

*It was brilliant to be able to welcome Year 6 pupils from Ysgol Bro Hyddgen Primary Campus, Carno, Glantwymyn, Llanbrynmair, Dyffryn Dulas Corris, Pennal and Talybont to the Secondary Campus on Wednesday to take part in our Technology and ICT transition day. It was a day where the pupils designed and manufactured a robot and programmed it to carry out a series of tasks such as following a line on a track.*

*The pupils worked excellently within their teams to compete by programming a robot to race around the track. They also created a presentation on what they had learned and designed and made a robot face using the laser cutter. It was good to see the pupils enjoying the project, behaving excellently and working especially well as a team to compete for the best robot. A day full of educational experiences and an excellent opportunity to get to know each other, the teachers and the school before starting here in September. We look forward to welcoming Year 6 back in June.*

# Blwyddyn 7 yn Brysur yn Ymgartrefu

Mae Blwyddyn 7 wedi bod yn brysur yn ymgartrefu yn yr ysgol uwchradd ac yn mwynhau pob math o weithgareddau o fewn gwersi a thu allan. Yn ddiweddar mae'r flwyddyn wedi bod yn dysgu cydweithio drwy weithgareddau datrys problemau.

"Heddiw yn ein gwersi technoleg roedden ni wedi neud gweithgareddau tîm. Yn y gweithgaredd gyntaf wnaethom, roedd rhaid i ni drefnu ein hunain mewn llinell o'r talaf i'r byrraf, heb siarad. Roedd hyn yn sialens , ond roedd modd cyfathrebu mewn ffyrdd eraill. Yna chwaraeon ni ***Clymau*** - gêm mae pawb ond un person, angen mynd mewn cylch a dal dwylo a chlymu'r cylch i fyny. Roedd y gemau yma yn hwyl ac yn gorfodi i ni weithio fel tîm a gwrando ar eraill wrth ddod i nabod disgyblion."

Charlotte Cook Blwyddyn 7

"Yn fy marn i, mae'r ysgol uwchradd yn wych! Dw i'n mwynhau chwaraeon, mathemateg a thechnoleg. Ar y diwrnod cyntaf roeddwn yn nerfus, ond hefyd roeddwn i'n gyffrous, ond roedd e'n hwyl hefyd. Rwyf wedi gwneud lot o ffrindiau. Dw i'n gobeithio fod pawb arall sy'n dod i'r ysgol yn cael amser da hefyd."

Rhys Evans Blwyddyn 7

"Mae'r wythnosau diwethaf wedi bod yn llawn hwyl a sbri! Gwnaethom waith ar adeiladu tîm yn un o wersi cyntaf Technoleg I baratoi at waith sydd angen i ni weithio yn dda efo ein gilydd. Fy hoff weithgaredd oedd pan oedden ni wedi clymu yn un cwlwm enfawr ac yn gorfod datod heb siarad! Mae gweithgareddau gan yr athrawon yn yr ysgol yma yn rhoi sgiliau i ni ddefnyddio yn y dyfodol, megis datrys problemau, gweithio gydag eraill a chyfathrebu.

Mae Clwb Gwaith Cartref i unrhyw un sydd ddim yn gallu gwneud gwaith cartref gartref. Mae athrawon yn barod iawn i helpu ni gyda gwaith, ac yn gwrando os oes unrhyw beth yn bod. Mae yna lawer o gyfleoedd i'w cael yn Ysgol Bro Hyddgen e.e. Clwb Pêl Rrwyd ar ôl ysgol, tripiau anhygoel - mae trip sgïo ar y gorwel - a gweithgareddau creadigol. Rwyf wrth fy modd."

Ela Thomas Blwyddyn 7.

*Year 7 have been busy settling into the secondary school and enjoying all kinds of activities both in and out of lessons. Recently the year has been learning to work together through problem solving activities.*

*"Today in our Technology lessons we did team activities. In the first activity, we had to organize ourselves in a line from tallest to shortest, without speaking. This was a challenge without talking, but it was possible to communicate in other ways. Then we played knots, a game where everyone except one person, needed to go in a circle and hold hands and tie the ring up. These games were fun and made us work as a team, listening to each other while getting to know other pupils."*

*Charlotte Cook Year 7.*

*"In my opinion, high school is great! I enjoy sport, maths and technology. On the first day I was nervous, and also excited, but it was fun too. I've made lots of friends, I hope everyone else who comes to the School has a good time too."*

*Rhys Evans Year 7 .*

*"The past few weeks have been great fun! We worked on team building in one of the first Technology lessons. My favourite activity was when we were tied into one huge knot and had to undo without talking! Activities by the teachers in this school provide us with skills for the future, such as problem solving, working with others and communication.*

*There is a Homework Club for anyone who cannot do homework at home. Teachers are very happy to help us with work, and listen if anything is wrong. There are many opportunities available at Ysgol Bro Hyddgen e.g. after school Netball Club, amazing trips - a Ski trip is on the horizon - and creative activities. I'm very happy."*

*Ela Thomas Year 7 .*

# Year 7 Busy Settling In













# Y Fari Lwyd gan Martha Price

## Ddydd Gwener 17 Ionawr 2020 daeth Mair Tomos Ifans â'r Fari Lwyd i ddosbarth Derwen



Ddydd Gwener 17 Ionawr 2020 daeth Mair Tomos Ifans â'r Fari Lwyd i ddosbarth Derwen i'n dysgu am hen draddodiadau'r Cymry. I gychwyn clywsom am wahanol draddoiadau'r Calan. Oeddech chi'n gwybod bod bechgyn ers talwm yn arfer hela'r dryw, ei ladd, ei roi mewn bocs, addurno'r bocs gyda rhubanau lliwgar a mynd â'r dryw o gwmpas y pentref? Traddodiad arall oedd canu Calennig i gael pres neu losin. Roedd plant yn mynd o dŷ i dŷ yn canu Blwyddyn Newydd Dda.

Dysgom hefyd am y Fari Lwyd. Penglog ceffyl ar goes brwsh yw'r Fari Lwyd, sydd wedi ei addurno gyda gorchudd gwyn, rhubannau lliwgar a chlychau. Roedd y Fari Lwyd hefyd yn mynd o dŷ i dŷ yn canu penillion ac yn trio mynd i mewn i dai pobl. Roedd rhai o'r penillion yn ddwl iawn! Cawsom rubanau i'w haddurno er mwyn gwisgo'r Fari Lwyd. Ar fy rhuban i roedd patrymau lliwgar.

Ar ôl hynny cawsom y cyfle i greu penillion dwl er mwyn eu perfformio yn y gwasanaeth ble cawsom andros o sbort yn dymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb. Dyma oedd rhan orau'r diwrnod i mi. Diolch Mair Tomos Ifans, a'r Fari Lwyd am ddod draw i'n gweld a'n dysgu am yr hen draddodiadau Cymreig.

*On Friday 17 January 2020 Mair Tomos Ifans brought the Mari Lwyd to Derwen class to learn about some old Welsh traditions. Initially we heard about the different traditions of the New Year. Did you know that boys in the past used to hunt the wren, kill it, put it in a box, decorate the box with colourful ribbons and take the wren around the village? Another tradition was to sing* ***Calennig*** *for money or sweets. Children went from house to house singing Happy New Year.*

*We also learned about the Mari Lwyd. The Mari Lwyd is a horse's skull on a brush stem, decorated with white cover, colourful ribbons and bells. The Mari Lwyd also went from house to house singing verses and trying to get into people's houses. Some of the verses were very silly! We were given ribbons to decorate the Mari Lwyd. On my ribbon there were colourful patterns.*

*We then had the opportunity to create some crazy verses to perform in the assembly where we had a great time wishing everyone a Happy New Year. This was the best part of the day for me. Thank you Mair Tomos Ifans for bringing the Mari Lwyd along to see us so that we can learn about some old Welsh traditions.*

# Cystadleuaeth Gymnasteg yr Urdd

## Cystadleuaeth Gymnasteg yr Urdd Gan Libby Francis a Sanna El-Radhi-Hall



Ddydd Llun 20 Ionawr roedd y ddwy ohonom wedi cymryd rhan yng nghystadleuaeth gymnasteg yr Urdd yn y Drenewydd. Ar y ffordd roedden ni'n llawn cyffro i gystadlu ac i gynrychioli ein hysgol. Roedd hyn yn brofiad hwyliog a cyffrous. Roedd y gymnasteg yn brofiad da i ni'n dwy ac mae wedi codi ein hyder i berfformio. Cawsom ni hwyl yn paratoi dawns gymnasteg a pherfformio o flaen pawb yn y gystadleuaeth.

*On Monday 20 January we both took part in the Urdd gymnastics competition in Newtown. We were excited to compete and represent our school. This was a fun and exciting experience. The gymnastics was a good experience for both of us and has increased our confidence to perform. We had fun preparing a gymnastics dance and performing in front of everyone in the competition.*

# Pêl-rwyd a Phêl-droed

Mae'r ysgol yn falch o'r disgyblion gymerodd rhan mewn cystadlaethau pêl-rwyd a phêl-droed yn ystod y mis diwethaf. Arddangoswyd sgiliau trin pêl a chydweithio arbennig gan y plant ac ar na fu llwyddiant ar lefel Rhanbarth y tro hwn, bu'n gyfle arbennig i gyfarfod â chwaraewyr eraill ac i ddatblygu ffitrwydd.




*The school is proud of the pupils who took part in netball and football competitions during the past month. The children demonstrated great ball-handling and co-operation skills and though no teams went through to the next round, it was a great opportunity to meet other players and develop fitness.*

# Ymweliad Ryan Giggs

Ddydd Iau 27 Chwefror, cafodd y plant a'r staff fodd i fyw yng nghwmni Rheolwr tîm pêl-droed Cymru: RYAN GIGGS!



Ddydd Iau 27 Chwefror, cafodd y plant a'r staff fodd i fyw yng nghwmni Rheolwr tîm pêl-droed Cymru: RYAN GIGGS! Treuliodd amser yn ateb cwestiynau; yn tynnu cant a mil o luniau a hunluniau ac yn arwyddo cofion. Diwrnod fydd yn siwr o aros yn hir yn y cof. #GorauChwaraeCydChwarae! #CaruPeldroedCymru

*On Thursday 27 February, the children and staff were thrilled to meet with the Manager of the Welsh football team: RYAN GIGGS! He spent time answering questions; taking countless pictures and self-portraits and signing memorabilia. A day that will be remembered. #GorauChwaraeCydChwarae! #CaruPeldroedCymru*



# Ryan Giggs Visit









# Gweithdai Celf Coetir Anian

Yn ystod Mis Mawrth daeth Clarissa a Holly o Coetir Anian i Ddosbarth Derwen i gynnal gweithdai Celf.



Yn ystod Mis Mawrth daeth Clarissa a Holly o Coetir Anian i Ddosbarth Derwen i gynnal gweithdai Celf. Cafodd y plant gyfleoedd i wehyddu ac argraffu gan ddefnyddio deunyddiau naturiol sydd i'w canfod yn eu cynefin. Aethpwyd i ardd y Plas i gael ysbrydoliaeth er mwyn creu darnau celfyddydol ar y thema Môr a Mynydd. Cyflwynwyd rhai darnau i'w beirniadu yng nghystadlaethau Celf a Chrefft Eisteddfod yr Urdd a nodir y llwyddiannau yma. Diolch am y profiad arbennig hwn a'r cyfle i'r dysgwyr gael datblygu'n Gyfranwyr Mentrus a Chreadigol.

*In March we welcomed Clarissa and Holly back from Cambrian Wildwood back to Derwen class to provide art & craft workshops. We got our inspiration from a visit to the Community Garden in the Plas. The children learned how to weave and print using natural materials and produced some interesting pieces on the theme Land and Sea. Thank you for this amazing experience.*

## Gweithdai Clocsio gyda Tudur Phillips

*Braf oedd croesawu Tudur Phillips i'r ysgol i ddysgu plant Bl 3 - 6 un o hen draddodiadau gwerin Cymru: clocsio. Cafodd y plant hwyl garw yn gwisgo clocsiau ac wedyn yn ceisio meistroli rhai o'r symudiadau. Llwyddodd ambell un i gyflawni'r gamp o neidio dros hances! Gwefreiddiwyd pawb gan sgiliau Tudur wrth iddo berfformio sut i ddiffodd cannwyll mewn steil.*

*It was a pleasure to welcome Tudur Phillips to school to teach Yr 3 - 6 one of the old Welsh folk traditions: clog dancing. The children had great fun wearing clogs and then trying to master some of the moves. A few achieved the feat of jumping over a handkerchief! Twe were all captivated by Tudur's skills especially when he performed how to extinguish a candle in true clog dancing style.*



# Canlyniadau Celf a Chrefft Eisteddfod Gylch yr Urdd

Mae'r ysgol yn falch iawn o ymdrechion pawb wnaeth gystadlu yng nghystadlaethau Celf a Chrefft yr Urdd. Dathlwn lwyddiant yr enillwyr o bell eleni ac edrychwn ymlaen at gael arddangos eu gwaith yn yr ysgol. Maen nhw'n Gyfranwyr Mentrus a Chreadigol.

*The school is very proud of the efforts of everyone who competed in the Urdd Arts and Crafts competitions. We celebrate the success of the winners remotely this year and look forward to seeing their work exhibited at the school. They are Enterprising and Creative Contributors*

| Cystadleuaeth | Enillydd | Safle |
|---|---|---|
| Lluniadau 2D Bl 2 ac Iau | Angharad Jones | 2il |
| Lluniadau Bl 3 & 4 | Olvia Bullen | 3ydd |
| Lluniadau Bl 5 & 6 | Esther West | 1af |
| Gwaith Creadigol 2D Bl 3 & 4 | Ffion Davies | 1af |
| | Ruby Cook | 3ydd |
| Gwaith Creadigol 2D Bl 3 & 4 (Grŵp) | Grŵp Derwen | 2il |
| | Grŵp Afallen | 3ydd |
| Print Monocrom BL 3 & 4 | Neve Curley | 1af |
| | Ffion Davies | 3ydd |
| Cyfres o Brintiau Monocrom Bl 3 & 4 | Neve Curley | 2il |
| Cyfres o Brintiau Lliw Bl 3 & 4 | Ffion Davies | 2il |
| Argraffu Bl 3 & 4 | Eurig Mason | 1af |
| Argraffu Bl 5 & 6 | Morgan mason | 1af |
| Argraffu/Addurno ar Fabrig Bl 3 & 4 | Eurig Mason | 1af |
| Argraffu/Addurno ar Ffabrig Bl 5 & 6 | Morgan Mason | 1af |
| Gwehyddu Bl 3 & 4 | Lisa Dixon | 2il |
| Gwehyddu Bl 3 & 4 (Grŵp) | Grŵp Derwen | 1af |
| Penwisg BL 6 ac Iau | Ruby Cook | 2il |
| Gwaith Creadigol 3D Bl 3 & 4 | Ffion Davies | 1af |
| Gwaith creadigol 3D Bl 3 & 4 (Grŵp) | Grŵp Afallen | 1af |
| Gemwaith Bl 3 & 4 | Ffion Davies | 1af |
| | Ruby Cook | 2il |

| Competition | Winner | Prize |
|---|---|---|
| Year 2 and Under 2D Drawings | Angharad Jones | 2nd |
| Year 3 & 4 Drawings | Olivia Bullen | 3rd |
| Year 5 & 6 Drawings | Esther West | 1st |
| Yr 3 & 4 Creative 2D Work | Ffion Davies | 1st |
| | Ruby Cook | 3rd |
| Yr 3 & 4 Creative 2D Work (Group) | Derwen Group | 2nd |
| | Afallen Group | 3rd |
| Year 3 & 4 Monochrome Print | Neve Curley | 1st |
| | Ffion Davies | 3rd |
| Year 3 & 4 Series of Mono-chrome Prints | Neve Curley | 2nd |
| Year 3 & 4 Series of Colour Prints | Ffion Davies | 2nd |
| Year 3 & 4 Print Work | Eurig Mason | 1st |
| Year 5 & 6 Print Work | Morgan mason | 1st |
| Year 3 & 4 Print / Design on Fabric | Eurig Mason | 1st |
| Year 5 & 6 Print / Design on Fabric | Morgan Mason | 1st |
| Year 3 & 4 Weaving | Lisa Dixon | 2nd |
| Year 3 & 4 (Group) Weaving | Derwen Group | 1st |
| Year 6 & and Under Headdress | Ruby Cook | 2nd |
| Year 3 & 4 3D Creative Work | Ffion Davies | 1st |
| Year 3 & 4 (Group) 3D Creative Work | Afallen Group | 1st |
| Year 3 & 4 Jewellery Work | Ffion Davies | 1st |
| | Ruby Cook | 2nd |

# Dydd Miwsig Cymru

## Dathlwyd Dydd Miwsig Cymru mewn steil yng nghwmni'r band Candelas ar lwyfan y Campws Uwchradd. 'Yn Gymraeg mae'i morio hi'!



Am gyfnod o ddau ddiwrnod ym mis Hydref 2019, daeth Branwen ac Osian Williams i gydweithio gyda holl ddisgyblion Blwyddyn 8 Ysgol Bro Hyddgen i gyd-gyfansoddi dwy gân Gymraeg. Roedd hyn yn rhan o alldaith a drefnwyd gan yr adran Gymraeg a'r adran Gerddoriaeth fel paratoad at ddyfodiad y Cwricwlwm Newydd.

Pen llinyn y gweithdai hyn oedd gwahodd Candelas yn eu holau i Fro Hyddgen i berfformio'r ddwy gân ar y cyd gyda disgyblion Blwyddyn 8 ar Ddydd Miwsig Cymru. Braf iawn oedd gweld disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yr ysgolion cynradd cyfagos yn dod aton ni'r prynhawn hwnnw a phawb wrthi'n mwynhau yn arw'n gwrando ar rai o hen ffefrynnau'r band poblogaidd o Lanuwchllyn.

Yn ystod y prynhawn, bu disgyblion Blwyddyn 8 yn gwerthu eu CDs ac ar y CDs hynny roedd y ddwy gân a gyfansoddwyd gan y disgyblion eu hunain. Mae modd prynu'r CDs drwy gysylltu â'r ysgol.

Dymuna'r ysgol ddiolch i bawb fu ynghlwm â'r digwyddiad.

*In October 2019, Branwen and Osian Williams came to work with all Year 8 pupils at Ysgol Bro Hyddgen to compose two Welsh songs. This was part of an Expedition organized by the Welsh department and the Music department in preparation for the arrival of the New Curriculum.*

*The end purpose of these workshops was to invite Candelas back to Bro Hyddgen to perform both songs in conjunction with Year 8 pupils on **Welsh Music Day.** It was great to see Year 5 and 6 pupils from the nearby primary schools coming to us that afternoon and everyone enjoying themselves listening to some of the old favorites of the popular band from Llanuwchllyn.*

*During the afternoon, Year 8 pupils sold their CDs and on those CDs were the two songs composed by the pupils themselves. The CDs can be purchased by contacting the school.*

*The school would like to thank everyone involved in the event.*

# Dydd Miwsig Cymru









# Gweithdy Chwaraeon Anabledd Cymru

Gweithdy Chwaraeon Anabledd Cymru




Ddydd Iau 30 Ionawr bu disgyblion dosbarth Collen a Helygen yn cymryd rhan mewn gweithdy arbennig wedi ei drefnu gan Chwaraeon Anabledd Cymru. Nod y gweithdy oedd codi proffil y cyfleoedd sydd ar gael i bobl anabl i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon o bob math, ac roedd yn gyfle i'r disgyblion ddeall yr heriau sy'n wynebu pobl anabl a sut mae modd goresgyn y rhain. Bu'r disgyblion yn cydweithio i addasu a chynllunio gemau addas, a chawsant gyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon amrywiol a chynhwysol er mwyn deall sut i gynnwys eraill mewn gemau.

*On Thursday 30 January pupils from Collen and Helygen classes took part in a special workshop organized by Disability Sport Wales. The aim of the workshop was to raise the profile of the opportunities available for disabled people to take part in sporting activities of all kinds. The workshop provided the pupils with an understanding of the challenges facing disabled people and how these can be overcome. The pupils worked together to adapt and design suitable games, and had the opportunity to take part in various inclusive sporting activities to help them understand how to involve others in games.*

## Adfer Byd Natur ar Afon Ddyfi / Restoring Nature on the River Dyfi

Mae Ymddiriedolaethau Natur Cymru'n arwain prosiect i helpu i adfer byd natur ar Afon Dyfi, gan gynnwys ailgyflwyno afancod o dan reolaeth. Ddydd Mawrth 4 Chwefror cynhaliwyd gweithdai rhyngweithiol gyda dosbarthiadau Masarnen ac Afallen er mwyn egluro'r prosiect hwn i'r disgyblion. Cafodd y pant gyflwyniad i Afancod a dysgu ble mae afancod yn byw; beth maent yn ei wneud; sut maent yn helpu bywyd gwyllt arall a pham nad ydynt yma mwyach. Yn dilyn hynny cawsant gyfle i gynllunio a chreu cynefin delfrydol i afancod.



*Wildlife Trusts Wales is leading a project to help restore nature on the River Dyfi, including the controlled reintroduction of beavers. On Tuesday 4 February interactive workshops were held with Masarnen and Afallen classes to explain this project to the pupils. The children were introduced to Beavers and learned where beavers live; what they are doing; how they help other wildlife and why they are no longer here. They then had the opportunity to design and create an ideal beaver habitat.*

# Gweithdy Maint Cymru

## Diolch i Anne MacGarry !

## Thank you Anne MacGarry



Y tymor hwn, mae dosbarth Helygen yn dilyn y thema **Un Byd**, **Ein Byd** ac yn ffocysu ar effaith newid hinsawdd. Ddydd Mawrth 14 Ionawr croesawyd Anne MacGarry i'r Campws Cynradd i gynnal gweithdy gyda'r dosbarth. Soniodd Anne am waith yr elusen Maint Cymru. Mae Maint Cymru yn annog pobl Cymru i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd trwy fod yn weithredol. Maent yn codi arian ar gyfer coedwigoedd a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd coedwigoedd er mwyn gwarchod rhag cynhesu byd-eang. Dysgodd y plant wybodaeth am goedwigoedd glaw'r byd ac am rai anifeiliaid sy'n byw mewn rhannau gwahanol. Chwaraewyd gêm i dynnu sylw at fioamrywiaeth o fewn coedwig law y Congo. Yn ogystal dysgwyd am achosion ac effaith cynhesu byd-eang, a thrwy'r gweithgareddau bywiog llwyddodd y plant i ddatblygu eu dealltwriaeth o newid hinsawdd.

*This term, Helygen class is following the theme of **One World, Our World** and focusing on the impact of climate change. On Tuesday 14 January we welcomed Anne MacGarry to the Primary Campus to hold a workshop with the class. Anne talked about the work of the charity **Size of Wales**. The charity is encouraging the people of Wales to tackle climate change by taking action. They are raising money for forests and raising awareness of the importance of forests to protect against global warming. The children learned information about the world's rainforests and some animals that live in different parts. The children enjoyed playing a game to highlight biodiversity within the Congo rainforest. They also learned about the causes and effects of global warming. These lively activities helped the children develop their understanding of climate change.*

## Dydd Gŵyl Dewi

*Ddydd Llun 2 Mawrth gwahoddwyd pawb i ddod i'r ysgol mewn gwisg Gymreig neu ddillad coch er mwyn dathlu Dydd Gwyl Dewi a hyrwyddo ymdeimlad o berthyn i gymuned a gwlad. #DinasyddionEgwyddorolGwybodus*

*On Monday 2 March everyone was invited to come to school dressed in Welsh costume or wearing red clothes in order to celebrate St David's Day and to promote a sense of belonging to community and country. #EthicalInformedCitizens*






Microsoft Office am ddim!
*Free copy of Microsoft Office!*
Office
YSGOL BRO HYDDGEN
Croeso i Ysgol Bro Hyddgen
Good morning, Tomi
Install Office 2016
Other installs
Mewngofnodi i e-bost Office 365 chi a dewis “Install Office”
*Login to your Office 365 email account and select “Install Office”*

# Adran Tynnu allan / *Pullout Section*

## *Covid-19 – Awgrymiadau i Rieni a Gofalwyr Ysgol Bro Hyddgen ar sut i Gefnogi'ch Plentyn Gyda'i Waith a'i Les*

*Covid-19 – Awgrymiadau i Rieni a Gofalwyr Ysgol Bro Hyddgen ar sut i Gefnogi'ch Plentyn Gyda'i Waith a'i Les*




Mae'n hanfodol i chi gofio os oes unrhyw bryder gennych eich bod yn cysylltu gyda'r ysgol ar unwaith.

Rydym yma i gydweithio gyda chi a'ch plentyn.

01654 704200

office@brohyddgen.powys.sch.uk

*It is important for you to remember to contact the school if you have any concerns about your child.*

*We are here to work with you and your child.*

*01654 704200*

*office@brohyddgen.powys.sch.uk*

# Gefnogi'ch Plentyn Gyda'i Waith a'i Les



## *Covid-19 – Awgrymiadau i Rieni a Gofalwyr Ysgol Bro Hyddgen ar sut i Gefnogi'ch Plentyn Gyda'i Waith a'i Les*

**Gwyddom fod hwn yn gyfnod anodd i bawb, ac rydych chi fel rhieni/gofalwyr yn gorfod arwain eich plentyn i newid ei system weithio'n sylweddol. Deallwn nad yw hyn yn hawdd. O ganlyniad, dyma ychydig o awgrymiadau am beth all wneud pethau'n haws i chi a'ch plentyn. Byddai'n fuddiol i chi drafod y rhain gyda'ch plentyn fel eu bod yn deall pam rydych chi'n rhoi'r arweiniad hwn iddynt.**

**1) Sicrhau bod ardal waith wedi'i phenodi**

Awgrymir bod gan eich plentyn le gwaith penodol, a bod ganddo'r offer cywir. Dylai'ch plentyn gael cyfnod a lle tawel i weithio lle nad oes sŵn yn tarfu arno/arni. Mewn cartref lle mae llawer o wrthdyniadau, gall hyn fod yn anodd. Ydy'r llofft, neu'r ystafell fwyta'n le tawel? Ydych chi'n gallu bod gerllaw i gynnig cefnogaeth a gwirio beth sydd wedi'i gwblhau? Mae'ch anogaeth a'ch cefnogaeth chi'n bwysig - bydd eich plentyn yn ymfalchïo ymhob canmoliaeth bydd yn ei dderbyn gennych (er cofiwch fod canmoliaeth ond yn werthfawr pan mae'n cael ei haeddu!). Pan mae'ch plentyn yn gweithio, dylai osgoi mynd ar wefannau cymdeithasol neu chwarae gemau cyfrifiadurol - dylid cadw'r rhain fel gwobrau am gwblhau cyfnod o waith ac fel cyfle i ymlacio. Mae'n syniad da i gadw'r ffôn symudol mewn ystafell arall.

**2) Sicrhau bod yr offer cywir gan eich plentyn i'w alluogi i weithio**

Os nad oes offer cyfrifiadurol gan eich plentyn sy'n ei ganiatáu i gwblhau'i waith ysgol, dylech fynd ar dudalen gymorth TGCh yr ysgol i nodi hynny ar unwaith:


https://brohyddgen.cymru/index.php/ict-support-page/?lang=cy

## *Covid-19 – Awgrymiadau i Rieni a Gofalwyr Ysgol Bro Hyddgen ar sut i Gefnogi'ch Plentyn Gyda'i Waith a'i Les*

***We know this is a difficult time for everyone, and you as parents/carers have to guide your child through significant changes in learning patterns. We understand this isn't easy. As a result, we offer a few suggestions that could make things a bit easier for you and your child. We suggest that it would be advantageous for you to discuss these with your child.***

***1) Ensure a working area has been created***

*Try to provide a specific working area, and that your child has access to the correct equipment. He/she should have a quiet place and time to work with no disruptions. This can be very difficult in a busy home. Is the bedroom or the dining room quiet? Can you be nearby to offer support and check the work when it is completed? Your encouragement and support is very important. Your child will be proud each time he/she is praised (although remember praise is only valuable if it is deserved). When your child is working, he/she should avoid social media or playing on computer games – these should be rewards for completing a work session. It is a good idea to keep the mobile phone in another room.*




***2) Ensure your child has the correct equipment to enable him/her to work***

*If your child does not have the necessary computer equipment to complete his/her schoolwork, you should visit the ICT helpdesk page on the school webpage to note this immediately:*




*https://brohyddgen.cymru/index.php/ict-support-page/*

# Support your Child's Learning and Well-being



### 3) Sefydlu math o drefn amser

Mae athrawon eich plentyn yn gosod gwaith yn ystod y cyfnod hwn fydd yn datblygu a grymuso'i ddealltwriaeth a sgiliau pynciol, ac mae disgwyl i'ch plentyn gyflwyno'r gwaith hwn erbyn bydd yr athro/athrawes yn gofyn amdano. Byddai'n effeithiol sefydlu trefn amser penodol er mwyn normaleiddio a chreu ffocws ar y gwaith ysgol y mae disgwyl i'ch plentyn ei gwblhau. Mae pob un ohonom yn gweithredu'n well wrth gael trefn - yn feddyliol ac yn gorfforol. Awgrymir gweithio am gyfnod cyn cael egwyl fer, ac yna ail-gydio'n y gwaith eto. Mae'n syniad da i anelu at gytuno ar amserau dechrau, egwyl, cinio a diwedd gweithio, a da o beth fyddai dechrau'r diwrnod gwaith ar yr un amser bob dydd. Mae hefyd yn syniad da i amrywio'r tasgau a gwblheir a pheidio canolbwyntio ar yr un peth am gyfnod hir. Ni ddisgwylir i blant ddilyn yr amserlen ysgol i'r funud gan nad yw hyn yn ymarferol, ond dyma awgrym o amserlen a allai fod o gymorth:

**Awgrym ar gyfer Trefn Diwrnod Plentyn Cynradd**

| Cyn 9.00am | Codi | Brwsio dannedd, gwneud y gwely, gwisgo, bwyta brecwast |
|---|---|---|
| 9.00am | Ymarfer corff bore | Mynd am dro / mynd ar y beic (os oes modd) / ioga / dawnsio / ymarfer ffitrwydd |
| 10.00am | Heriau dysgu | Gweler Teams a gwefan yr ysgol |
| 11.00am | Amser Creadigol | Lego, coginio, gwneud crefftau, garddio, tynnu llun, modelu |
| 12.00pm | Cinio | |
| 1.00pm | Helpu o gwmpas y tŷ neu yn yr ardd | |
| 2.00pm | Amser tawel | Darllen, gwrando ar stori, posau, Sudoku, croesair, chwilair, gwrando ar gerddoriaeth, gemau bwrdd a chardiau |
| 2.30pm | Heriau dysgu & Gemau I-pad e.e. TT Rockstars | Gweler Teams, gwefan yr ysgol & HWB |
| 4.00pm | Ymarfer corff prynhawn | Mynd am dro / mynd ar y beic (os oes modd) / ioga / dawnsio / ymarfer ffitrwydd |
| 5.00 - 6.00pm | Swper | |
| 6.00 - 8.00pm | Amser Rhydd | |
| 8.00pm ymlaen | Amser Gwely | |

### *3) Set a routine*

*Your child's teachers are setting work for your child during the Lockdown that will develop and reinforce his/her subject understanding and skills. Work should be submitted by the set deadline. It's a good idea to set a specific routine to normalise and create a focus on the school work your child is asked to complete. We all work more effectively when we follow a routine – mentally as well as physically. We suggest that children work for a set period of time before taking a short break, and then returning to the work afterwards. It is also a good idea to agree on a start time, break-time, lunchtime and when to finish working for the day. Furthermore, we strongly suggest that children start working at the same time every day. It is a good idea to complete a variety of tasks and not to concentrate on one task or subject all the time. Children are not expected to follow the school's current timetable, as this isn't practical. We suggest the following timetables:*

***Suggestion for Primary Child Daily Timetable***

| *Before 9.00am* | *Get up* | *Clean teeth, make the bed, get dressed, eat breakfast* |
|---|---|---|
| *9.00am* | *Morning exercise* | *Go for a walk / ride the bike (if possible)/ yoga / dancing / fitness exercise* |
| *10.00am* | *Learning challenges* | *See Class Teams or Primary Homepage: https://brohyddgen.cymru/index.php/primary-homepage/* |
| *11.00am* | *Creative time* | *Lego, baking, craft making, gardening, drawing, making models* |
| *12.00pm* | *Lunch* | |
| *1.00pm* | *Helping in the house or garden* | |
| *2.00pm* | *Quiet time* | *Read, listen to a story, puzzles, Sudoku, crossword, word-search, listen to music, board games, card games* |
| *2.30pm* | *Learning Challenges & I-pad games e.g. TT Rockstars* | *See Teams or Primary Homepage: https://brohyddgen.cymru/index.php/primary-homepage/ Also HWB* |
| *4.00pm* | *Afternoon exercise* | *Go for a walk / ride the bike (if possible)/ yoga / dancing / fitness exercise* |
| *5.00 - 6.00pm* | *Supper* | |
| *6.00 - 8.00pm* | *Free time* | |
| *8.00pm onwards* | *Bed time* | |

# Gefnogi'ch Plentyn Gyda'i Waith a'i Les



## BLYNYDDOEDD 7 AC 8

| Diwrnod | Sesiwn 1 | Sesiwn 2 | Sesiwn 3 |
|---|---|---|---|
| Llun | Cymraeg | Addysg Grefyddol | Celf |
| Mawrth | Mathemateg | Daearyddiaeth | Addysg Gorfforol |
| Mercher | Saesneg | Hanes | Cerdd |
| Iau | Gwyddoniaeth, D+T a TGCh | | Ffrangeg |
| Gwener | Gorffen gwaith anorffenedig<br><br>Gwneud gweithgareddau rydych yn eu mwynhau<br><br>e.e. ymarfer corff e.e. yoga neu fynd i loncian, coginio, celf a chrefft, ymarfer offeryn, darllen | | |
| Penwythnos | Ymlacio | | |

## YEARS 7 AND 8

| *Day* | *Session 1* | *Session 2* | *Session 3* |
|---|---|---|---|
| *Monday* | *Welsh* | *Religious Education* | *Art* |
| *Tuesday* | *Mathematics* | *Geography* | *Physical Educa-tion* |
| *Wednes-day* | *English* | *History* | *Music* |
| *Thursday* | *Science, D+T and ICT* | | *French* |
| *Friday* | *Complete unfinished work*<br><br>*Undertake activities you enjoy e.g. physical education such as yoga or jogging, cooking, arts and crafts, practice a musical instrument, reading* | | |
| *Weekend* | *Relax* | | |

## BLYNYDDOEDD 9 A 10

| Diwrnod | Bore | Prynhawn |
|---|---|---|
| Llun | Cymraeg | Opsiwn 1 |
| Mawrth | Mathemateg | Opsiwn 2 |
| Mercher | Saesneg | Opsiwn 3 |
| Iau | Gwyddoniaeth | Bagloriaeth |
| Gwener | Gorffen gwaith anorffenedig<br><br>Gwneud gweithgareddau rydych yn eu mwynhau<br><br>e.e. ymarfer corff e.e. yoga neu fynd i loncian, coginio, celf a chrefft, ymarfer offeryn, darllen | |
| Penwythnos | Ymlacio | |

## YEARS 9 and 10

| *Day* | *Morning* | *Afternoon* |
|---|---|---|
| *Monday* | *Welsh* | *Option 1* |
| *Tuesday* | *Mathematics* | *Option 2* |
| *Wednes-day* | *English* | *Option 3* |
| *Thursday* | *Science* | *Welsh Baccalaureate* |
| *Friday* | *Complete unfinished work*<br><br>*Undertake activities you enjoy e.g. physical education such as yoga or jogging, cooking, arts and crafts, practice a musical instrument, reading* | |
| *Weekend* | *Relax* | |

## 4) Cadw'r meddwl a'r corff yn heini

Gellir dechrau pob diwrnod gwaith gyda sesiwn ymarfer corff:

- FfitCymru https://www.ffit.cymru/ymarfer-corff/
- Joe Wicks https://www.youtube.com/playlist?list=PLyCLoPd4VxBsjmT2uzj4ojk-EQaJ9oi8R

Mae hyn yn hwyl, ac mae'n ddull o ffocysu'r meddwl.

Gall hefyd fod yn syniad i ddechrau sesiynau ar ôl egwyl neu ginio gydag ychydig o eiliadau o fyfyrio i ffocysu'r meddwl. Mae ymchwil yn dangos bod hyn yn galluogi rhywun i weithio'n gynt a llawer mwy cynhyrchiol. Dyma enghraifft o fideo 'Myfyrio am Funud' oddi ar Youtube:

https://www.youtube.com/watch?v=F7PxEy5IyV4

## 4) Keep the body and mind fit

You can start every workday doing exercise:

- FfitCymru https://www.ffit.cymru/ymarfer-corff/
- Joe Wicks https://www.youtube.com/playlist?list=PLyCLoPd4VxBsjmT2uzj4ojk-EQaJ9oi8R

This is fun and it focuses the mind.

It would also be an idea to begin the 2nd or 3rd session with a period of reflection to focus the mind. Research shows that this allows one to work quicker and far more productive. See:

https://www.youtube.com/watch?v=F7PxEy5IyV4

# *Support your Child's Learning and Well-being*



Os yw'n addas ac yn ymarferol, ewch am dro fer i gael awyr iach ar ddiwedd y dydd. Neu beth am fynd i loncian neu wneud sesiwn fer o yoga?

- https://www.youtube.com/channel/UCZkbiujyDoXqoPPr5D74I7A
- https://www.cosmickids.com/
- https://www.headspace.com/meditation/kids

## 5) Cefnogi'ch plentyn yn ei waith

Os yw'ch plentyn yn gofyn i chi am gymorth, peidiwch poeni os nad ydych yn deall y gwaith. Cofiwch, dydych chi fel rhiant heb fod yn y gwersi mae'ch plentyn wedi'u mynychu. Gallwch gydweithio i edrych am gymorth ar y we yn y lle cyntaf, ac mae grymuso sgiliau ymchwilio'ch plentyn yn beth da. Wedi dweud hynny, nid yw pob ateb ar y we. Os nad ydych yn hyderus eich bod yn deall y gwaith a ofynir i'ch plentyn ei wneud yna gofynnwch i'w athro - mae'r athrawon yn awyddus i gefnogi'r disgyblion, ac yn croesawu ceisiadau am gymorth.

Gall eich plentyn ofyn am gymorth i'w athro/athrawes trwy ei h/e-bostio, neu ysgrifennu neges ar Microsoft Teams. Os ydych chi fel rhiant/gofalydd gyda chwestiynau, yna gallwch chi hefyd gysylltu gyda'r athro. Ceir manylion cyswllt holl staff yr ysgol yn: https://brohyddgen.cymru/index.php/contact-us/?lang=cy

## 6) Defnyddio'r Gymraeg

Os ydy'ch plentyn yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ceir yma gefnogaeth bellach ac adnoddau gwerthfawr a hwyliog ar sut i gefnogi sgiliau Cymraeg eich plentyn:

https://twitter.com/BroHyddgen/status/1246050027111415810

## 7) Sicrhau bod eich plentyn yn deall y rhaglenni TGCh sydd ar waith gan yr ysgol

Mae llawer o arweiniad wedi'i osod ar wefan yr ysgol am sut i ddefnyddio Microsoft Teams a meddalwedd arall perthnasol. Gweler: https://brohyddgen.cymru/index.php/ict-support-page/?lang=cy

Os na allwch ddod o hyd i'r ateb i broblem dechnegol TGCh, nac wrth ebostio'ch athro, yna ewch i linell gymorth TGCh yr ysgol: https://brohyddgen.cymru/index.php/ict-support-page/?lang=cy

If appropriate and practical, go for a short walk or a jog at the end or the start of the day or why not try a yoga session:

- https://www.youtube.com/channel/UCZkbiujyDoXqoPPr5D74I7A
- https://www.cosmickids.com/
- https://www.headspace.com/meditation/kids

## 5) Supporting your child with their work

If your child asks you for help, don't worry if you don't understand the work. Remember, you as a parent haven't been in their lessons. You may want to work together to look for further guidance on the internet which is a skill worth developing. However, not every answer can be found online. If you are not confident enough to guide your child through the work, then ask the teacher. All the staff contact details can be found at: https://brohyddgen.cymru/index.php/contact-us/

Your child can contact your teacher by sending him/her an email, or writing a message on Class Posts on Teams. If you, as a parent or carer have any questions, you can also contact the school.

## 6) Learning through the medium of Welsh

If your child is learning through the medium of Welsh but doesn't speak Welsh at home you can find further resources to support your child's Welsh language skill here, and have fun while doing so:


https://twitter.com/BroHyddgen/status/1246050027111415810

## 7) Ensuring your child understands the ICT programmes used by the school

Various guidance has been provided and placed on the school's website on how to use Microsoft Teams and many other software. This guidance can be found here: https://brohyddgen.cymru/index.php/ict-support-page/?lang=cy

If you are unable to find an answer to your ICT question on the website or by asking the teacher, you can then try the ICT helpline available here: https://brohyddgen.cymru/index.php/ict-support-page/



# Gefnogi'ch Plentyn Gyda'i Waith a'i Les




## 8) Cadw'ch plentyn yn ddiogel ar-lein

Mae'r ysgol yn ddiolchgar iawn i Richard James o Glwb Golff Aberdyfi ddaeth i'r ysgol i ddysgu sgiliau golff i blant Bl 3 - 6. Cafodd pawb hwyl garw yn dysgu sgiliau newydd. Dyma oedd cyfle arall iddynt ddatblygu'n Unigolion Iach a Hyderus.

*The school is very grateful to Richard James of Aberdyfi Golf Club who came to the school to teach golf skills to Yr 3 - 6. Everyone had a great time learning new skills. This was another opportunity for them to develop into Healthy and Confident Individuals.*



# Bwletin Dosbarth Derwen
# Derwen  Class Bulletin Board



## Bwletin Dosbarth Derwen

## *Derwen Class Bulletin Board*



Mae gweithgareddau dysgu ar gyfer dosbarth Derwen i'w gweld ar Teams neu yn y ffolder **Lawrlwytho Adnoddau** ar dudalen flaen **Plant Cynradd** gwefan yr ysgol. Bydd cyfres o weithgareddau gwahanol yn cael eu llwytho bob pythefnos- felly cadwch lygad allan!

Mae croeso i ddisgyblion Afallen lwytho eu gwaith, neu luniau o'u gwaith, i'w ffolder yn Teams neu ei e-bostio i fi:

**aet@brohyddgen.powys.sch.uk**

Diolch i'r rhai sydd wedi rhannu eu gwaith yn barod.

Os oes unrhyw broblem gyda'r gwaith, yna e-bostiwch neu gadewch neges ar ***Teams Chat***, a chofiwch gadw mewn cysylltiad!

Os oes problem dechnegol, gallwch gysylltu drwy'r  Ddesg Gymorth TGCh sydd ar wefan yr ysgol hefyd.

*Learning activities for Derwen Class can be found on Teams. Different activities are uploaded every fortnight – so keep an eye out!*
*Collen pupils are welcome to upload work or photographs to their Teams folder, or e-mail it to me:*
***aet@brohyddgen.powys.sch.uk***

*Thank you to those of you who have already been sharing your work by sending in documents and photos. Any problems, then please e-mail me or leave a message on Teams Chat, and remember to keep in touch.*
*If you have technical problems, you can also use the ICT Helpdesk on the school website.*

## Eisteddfod Ddawns

Llongyfarchiadau i Parti Bro Hyddgen B am ennill y wobr gyntaf yn y gystadleauaeth dawnsio disgo; ac i Parti Bro Hyddgen A am ennill y drydedd wobr #UnigolionIachHyderus





# Bwletin Dosbarth Masarnen
# Masarnen Class Bulletin Board



## Bwletin Dosbarth Masarnen

## Masarnen Class Bulletin Board



Mae gweithgareddau dysgu ar gyfer dosbarth Masarnen i'w gweld ar Teams neu yn y ffolder **Lawrlwytho Adnoddau** ar dudalen flaen **Plant Cynradd** gwefan yr ysgol. Bydd cyfres o weithgareddau gwahanol yn cael eu llwytho bob pythefnos- felly cadwch lygad allan!

Mae croeso i ddisgyblion Afallen lwytho eu gwaith, neu luniau o'u gwaith, i'w ffolder yn Teams neu ei e-bostio i fi:

**lr@brohyddgen.powys.sch.uk**

Diolch i'r rhai sydd wedi rhannu eu gwaith yn barod.

Os oes unrhyw broblem gyda'r gwaith, yna e-bostiwch neu gadewch neges ar ***Teams Chat***, a chofiwch gadw mewn cysylltiad!

Os oes problem dechnegol, gallwch gysylltu drwy'r Ddesg Gymorth TGCh sydd ar wefan yr ysgol hefyd.

*Learning activities for Masarnen Class can be found on Teams. Different activities are uploaded every fortnight – so keep an eye out!*
*Collen pupils are welcome to upload work or photographs to their Teams folder, or e-mail it to me:* ***lr@brohyddgen.powys.sch.uk***

*Thank you to those of you who have already been sharing your work by sending in documents and photos. Any problems, then please e-mail me or leave a message on Teams Chat, and remember to keep in touch.*
*If you have technical problems, you can also use the ICT Helpdesk on the school website.*

## Dydd Gŵyl Dewi

*Ddydd Llun 2 Mawrth gwahoddwyd pawb i ddod i'r ysgol mewn gwisg Gymreig neu ddillad coch er mwyn dathlu Dydd Gwyl Dewi a hyrwyddo ymdeimlad o berthyn i gymuned a gwlad. #DinasyddionEgwyddorolGwybodus*

*On Monday 2 March everyone was invited to come to school dressed in Welsh costume or wearing red clothes in order to celebrate St David's Day and to promote a sense of belonging to community and country. #EthicalInformedCitizens*




# Heriau Iechyd a Lles / Health & Well-being Challenges



## CA2 (Bl 3—6) / KS2 (Year 3—6)

| | | |
|---|---|---|
| Beth am greu byrbryd, brecwast neu ginio iach eich hun?<br>Esboniwch pam ei fod yn iach. Ysgrifennwch y rysáit/canllaw cam wrth gam.<br><br>*Create your own healthy lunch snack/ breakfast.*<br>*Explain why it's healthy. Write out the recipe / step by step guide.* | Ewch ati i greu Cylchred Ymarfer (Circuit) cadw'n iach eich hun tra bo chi adre.<br>Defnyddiwch offer o gwmpas yr ardd neu yn y tŷ.<br><br>*Create your own 'keep fit' Circuit while you're at home.*<br>*Use equipment from around the garden or in your home.* | Ewch ati i greu fideo cadw'n iach eu hunain neu cyflwyno dawns – gallwch greu clip tu fewn neu al-lan.<br><br>*Create your own 'keep fit' video or dance routine (a short clip indoors or in the garden).* |
| Beth am greu hysbyseb / jingle / rap i hysbysebu eich pryd bwyd?<br><br>*Create an advert / jingle / rap to ad-vertise it .*<br>Cyfrifwch y pris gwerthu gan sicrhau bod elw.<br><br>*Work out the price for selling ensuring there is a profit.*<br><br> | Cynlluniwch y trac cylched ar bapur a thrwy dynnu ffoto-graffau.<br><br>*Plan the track on paper and take photographs.*<br>Amserwch eich hun - oes modd gwneud y trac yn fwy/ llai heriol ar gyfer eraill?<br>Cadwch gofnod / graff o'ch am-ser?<br>Ydych chi'n gwella dros amser?<br><br>*Time yourself - can the track be made more / less challeng-ing for others?*<br>*Keep a record / graph of your time?*<br>*Does your time improve over the next days/weeks?* | Crewch boster i annog pobl i gadw'n ffit a heini neu i fwyta'n iach.<br><br>*Create a poster to encourage others to keep fit or to eat healthily.*<br>Ymchwiliwch a gwnewch gyflwyni-ad am fwyta'n iach.<br><br>*Research and create a presentation about healthy eating.*<br><br> |

# Apiau a Gwefannau / Apps & Websites



**Apiau/Gwefanau *Apps/Websites***

- ⇒ Topmarks
- ⇒ BBC bitesize
- ⇒ Horrible histories
- ⇒ HWB
- ⇒ TT Rockstars
- ⇒ Scholastics
- ⇒ Hay on Wye education resources
- ⇒ Garage band
- ⇒ Imovie
- ⇒ Book creator
- ⇒ Twinkl (school closure home learning packs)

**Gwefannau Cyffredinol / *General Information:***

1. Wellbeing: https://2135.speakr.co.uk/sign_in
2. Gweithgareddau teipo / Typing activities: https://www.bbc.co.uk/bitesize/topics/zf2f9j6/articles/z3c6tfr
3. Mental maths:
   -https://ttrockstars.com/
   - https://www.topmarks.co.uk/maths-games/daily10
   - https://pages.sumdog.com/

**Addas i bawb / *Suitable for all:***

- ⇒ **Canu/Singing:** https://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/2008-09/music/rimbojam/rimbojam.html
- ⇒ **Yoga: cosmic kids**
- ⇒ **Hwb:** https://hwb.gov.wales/ (J2Blast & J2 Spell – spelling and arithmetic)
- ⇒ **Celf/Art:** https://www.youtube.com/channel/UCAPFIcbzwM5l9jgczSUkeJw

**Cyffredinol / *General:***

- ⇒ https://kids.classroomsecrets.co.uk/
- ⇒ https://s3.amazonaws.com/kajabi-storefronts-production/sites/95175/themes/1669739/downloads/zY9cQmFTYIxr9Mc1MJYw_Must-Have_Resources_to_support_your_students_during_CO-VID19.pdf
- ⇒ https://www.oxfordowl.co.uk/for-home/advice-for-parents/fun-ideas-learning-at-home/
- ⇒ https://docs.google.com/spreadsheets/d/1t3r618pd8MAi6V87dG2D66PtiKoHdHusBpjPKXgm36w/htmlview?sle=true#gid=0

**Ymarfer Papurau Profion Cenedlaethol / *National Test Practice Papers***

Darllen / *Reading:*

- ⇒ https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/asesiadau-darllen-a-rhifedd/profion-darllen-a-rhifedd-cenedlaethol/deunyddiau-sampl-darllen/

**Rhifedd / *Numeracy:***

- ⇒ https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/asesiadau-darllen-a-rhifedd/profion-darllen-a-rhifedd-cenedlaethol/deunyddiau-sampl-rhifedd/

# Prosiectau/Gweithgareddau Hir dymor *Long term Projects/Activities*

- Ysgrifennu stori/*Write a story*
- Cystadleuaeth Celf Dementia/*Dementia friendly art competition*
- Coginio/cooking-creu ac ysgrifennu rysait/*Create and write a recipe*
- Creu cyfarwyddiadau rysait ar fideo/*Make an instructions recipe video*
- Tynnu llun neu ysgrifennu neges i godi calon rhywun yn y gymuned/*Draw a picture or write a message to lift someone's spirits in the community*
- Ymarfer TT Rockstar/*Practice TT Rockstar*
- Creu comic/*Create a comic*
- Garddio/*gardening (tacluso/plannu/tidying/planting)*
- Poster i hyrwyddo hawliau plant/*Poster to promote the rights of the child*
- Ymarfer dulliau adio a thynnu/*Practice adding and subtracting strategies/techniques*

# Bwletin Dosbarth Helygen
# *Helygen Class Bulletin Board*

Bwletin Dosbarth Helygen
*Helygen Class Bulletin Board*




Mae syniadau ar gyfer gweithgareddau dysgu ar gyfer dosbarth Helygen i'w gweld ar Teams. Mae cyfres o weithgareddau gwahanol yn cael eu llwytho yno bob pythefnos – felly cadwch lygad allan!
Mae croeso i ddisgyblion Helygen i uwchlwytho gwaith i'w ffolder yn Teams, neu ei e-bostio i fi: mharries@brohyddgen.powys.sch.uk
Diolch i'r rhai sydd wedi bod yn rhannu eu gwaith yn barod trwy yrru dogfennau neu luniau! Gweithgareddau dysgu amrywiol a difyr!
Os oes unrhyw broblem, yna e-bostiwch, a chofiwch gadw mewn cysylltiad!

*Ideas for learning activities for Helygen can be found on Teams. A series of different activities are uploaded every fortnight - so keep an eye out!*
*Helygen pupils are welcome to upload work to their Teams folder, or email it to me: mharries@brohyddgen.powys.sch.uk*
*Thank you to those who have already been sharing their work by sending documents or photos! A great variety of valuable learning experiences!*
*Any problems, then please email, and remember to keep in touch!*

## Bwletin TGCh / *ICT Bulletin*

**CA3**: Cofiwch fynd ati efo'r llyfryn gwaith TGCh sydd wedi cael ei osod i chi cwblhau yn ***Assignments*** yn **Teams**. Unwaith rydych wedi cwblhau'r 8 topig, dewis ***turn in*** er mwyn i ni allu marcio o.

**CA4**: Cario ymlaen efo'r gwaith sydd wedi cael ei osod yn ***Assignments*** ar **Teams**. Cofiwch edrych ar yr adborth cyn mynd ymlaen i'r dasg nesaf.

**CA5**: Cario ymlaen efo'r uned **Cyfyngau Cymdeithasol** a gafodd ei chyflwyno yn y gwersi.

***KS3:*** *Remember to go with the ICT workbook you have been set to complete in* ***Assignments*** *in Teams. Once you have completed all 8 topics, select* ***turn in*** *so we can mark it.*

***KS4****: Continue with the work that has been installed in* ***Assignments*** *on Teams. Remember to look at the feedback before going on to the next task.*

***KS5:*** *Continue with the* ***Social Media*** *unit introduced in the lessons.*

# Gweithdy Coedwigoedd Glaw Cymru

## Gweithdy Coedwigoedd Glaw Cymru

## *Welsh Rainforests Workshop*



Ddydd Iau 12 Mawrth cafodd dosbarth Helygen gyfle arbennig i gymryd rhan mewn cyfres o weithdai yng ngwarchodfa'r RSPB yn Ynyshir. Dan arweiniad Llinos Alun, Swyddog Ymgysylltu Prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd Cymru, bu'r disgyblion yn dysgu am goedwigoedd glaw gwerthfawr yr ardal a phwysigrwydd eu gwarchod. Cafwyd cyfle i archwilio cynefin y goedwig a'r pwll, a dysgu am gadwyni bwyd. Buont hefyd yn archwilio coed a'u mesur, ynghyd â thrafod pwysigrwydd coed o ran atal effaith cynhesu byd-eang. Yn dilyn y gweithdai hyn, bu'r disgyblion yn cydweithio gydag Elin Crowley o gwmni Ennyn Cymru i greu baner i adlewyrchu pwysigrwydd gofalu am ein coetiroedd. Bu'r disgyblion yn meddwl am sloganau bachog er mwyn cyfleu neges glir ar y faner, cyn darlunio planhigion a chreaduriaid y goedwig. Yn dilyn hyn, fe argraffwyd y darluniau a'u peintio ac yna eu hychwanegu i gwblhau'r faner. Diolch i Llinos ac Elin a thîm yr RSPB am gynnig profiadau cyfoethog a gwerth chweil i'r disgyblion.

*On Thursday 12 March, Helygen class had an opportunity to take part in a series of workshops at the RSPB reserve in Ynyshir. Led by Llinos Alun, Wales Celtic Rainforest Project Engagement Officer, the pupils learned about the area's valuable temperate rainforests and the importance of conserving them. There was an opportunity to explore the forest and pond habitat and learn about food chains. They also examined and measured trees, as well as discussing the importance of trees in preventing the impact of global warming. Following these workshops, pupils worked with Elin Crowley of Ennyn Cymru to create a banner to reflect the importance of looking after our woodlands. Pupils came up with catchy slogans to convey a clear message on the banner, before sketching the forest's plants and creatures. Following this, the drawings were printed and painted and then added to complete the banner. The school would like to thank Llinos and Elin and the RSPB team for providing the pupils with such enriching and rewarding experiences.*





# Newyddion Ffederasiwn Carno, Glantwymyn a Llanbrynmair

**Gweithdai**
Braf oedd croesawu Awen o Gwmni Sbarduno i ddod atom i gynnal gweithdy Gwyddoniaeth a oedd yn sicr yn ysbrydoli Gwyddonwyr y dyfodol. Cafodd ddisgyblion CA2 ar draws y Ffederasiwn ddiwrnod cyfan o ddysgu sut i gynnal ymchwiliadau gwyddonol a chyfle i ddatblygu ystod o sgiliau gwyddonol drwy ddarganfod ffeithiau difyr am Wyddoniaeth. Unwaith eto cafodd ddisgyblion CA2 brofiad gwych wrth wylio sioe fathemateg llawn hud a lledrith yng nghwmni Professor Llusern y tro hwn. Daeth y Proffesor a mathemateg yn fyw drwy driciau hud yn ei sioe ddramatig unigryw a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd pawb wedi eu syfrdanu gyda'r triciau.

**Candelas**
Fel rhan o ddathliadau Diwrnod Miwsig Cymru aeth disgyblion blwyddyn 5 & 6 i Gig Candelas yn Ysgol Bro Hyddgen. Roedd hyn yn gyffro mawr i bawb a chyfle iddynt wrando ar gerddoriaeth fyw, rhai yn gwneud hyn am y tro cyntaf. Roedd pawb wedi mwynhau yn fawr. Diolch yn fawr i Ysgol Bro Hyddgen am y gwahoddiad a'r cyfle i gymdeithasu gyda'n ffrindiau o fewn y clwstwr.

**Chwaraeon**
Cafodd disgyblion CA2 Ysgolion Glantwymyn a Llanbrynmair brynhawn gwych yn datblygu ystod o sgiliau chwaraeon mewn digwyddiad Athletau Dan Do a oedd wedi cael ei drefnu gan swyddogion 5X60. Ymhlith y gweithgareddau roedd cyfle i'r disgyblion daflu'r waywffon, naid hir, cyd bwyso, taro'r targed a naid driphlyg. Datblygu sgiliau hoci a thenis mae disgyblion Carno wedi'i wneud yn ystod y tymor a phawb wedi mwynhau yn fawr.

**Dathliadau**
Mae wedi bod yn dymor o ddathliadau wrth i ni ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, Diwrnod y Llyfr a llwyddiannau disgyblion yng nghystadlaethau'r Urdd. Hoffwn ddiolch i'r staff ar draws y Ffederasiwn sydd wedi bod yn hyfforddi disgyblion i safon uchel yng nghystadlaethau'r Urdd unwaith eto eleni. Er ein bod yn ysgolion cymharol fach ein maint rydym yn ymfalchïo yn yr ystod o gyfleoedd rydym yn gallu cynnig i'r disgyblion.

**Dathlu Diwrnod y Llyfr**
Roedd 'na gyffro mawr ar ddiwrnod y llyfr wrth i'r disgyblion ar draws y Ffederasiwn ddod i'r ysgol wedi gwisgo fel eu hoff gymeriad o lyfr. Bu cyfle i'r disgyblion siarad am eu llyfrau, cyfnewid llyfrau a hefyd yn ystod y diwrnod bu disgyblion hŷn yr ysgol yn darllen stori i blant y Cyfnod Sylfaen a gwrando arnynt yn darllen.

**<u>Urdd</u>**

**Chwaraeon -** Llongyfarchiadau mawr i Jac Jones Ysgol Glantwymyn ar ddod yn 2il yng nghystadleuaeth nofio yng Nghaerdydd. Roedd hyn yn dipyn o gamp yn enwedig gan fod pwll nofio Caerdydd dipyn mwy na'n pwll nofio ni yma ym Machynlleth.
Llongyfarchiadau mawr i dîm pêl droed Ysgol Carno am ddod i'r brig yng nghystadleuaeth pêl droed Maldwyn i ysgolion o dan 50 o ddisgyblion.

**Cogurdd -** Llongyfarchiadau i Megan Jones Ysgol Carno, Cara Enlli Pughe Ysgol Glantwymyn a Siwan Ashton Ysgol Llanbrynmair ar ddod yn 1af yng nghystadlaethau CogUrdd yr ysgolion unigol.

**Dawnsio -** Llongyfarchiadau hefyd i bartïon Dawnsio Gwerin Ysgol Glantwymyn ac Ysgol Llanbrynmair ar eu perfformiadau hwy yn yr Eisteddfod ddawns yn ddiweddar. Daeth parti Dawnsio Gwerin 3 & 4 Ysgol Glantwymyn yn 1af a chafodd y parti Blwyddyn 5 & 6 2il gyda Pharti Dawnsio Gwerin Blwyddyn 6 ac Iau Ysgol Llanbrynmair yn cipio'r wobr gyntaf yn yr Eisteddfod Cylch. Llongyfarchiadau mawr hefyd i Nel Owen Harding Ysgol Glantwymyn ar ddod yn 1af ar y ddawns Hip Hop Unigol gyda Gwenlli Pennant Jones Ysgol Llanbrynmair yn 2il a Lottie Hughes Ysgol Glantwymyn yn 3ydd. Llongyfarchiadau hefyd i barti dawnsio Disgo Blwyddyn 4 Ysgol Llanbrynmair a ddaeth yn 2il yng nghystadleuaeth dawnsio grŵp.

**Celf a Chrefft -** Roedd ffreutur y Campws Uwchradd yn fôr o liw wrth i'r holl waith celf gael eu beirniadu ychydig wythnosau yn ôl. Cafodd pob disgybl sydd yn aelod o'r Urdd gyfle i gydweithio ar waith celf 2D a 3D ynghyd â champweithiau arlunio, graffeg gyfrifiadurol, pypedau, gwnïo a ffotograffig i enwi rhai yn unig. Llongyfarchiadau mawr i bawb a gafodd wobrau, edrychwn ymlaen at gael rhannu'r tystysgrifau unwaith bydd yr ysgolion yn ail agor.

**Blists Hill**
Cafodd holl ddisgyblion Ysgol Carno, Glantwymyn a Llanbrynmair deithio yn ôl mewn amser i Oes Fictoria wrth iddynt ymweld â phentref Fictorianaidd Blists Hill ar ddechrau'r tymor. Cawson amser gwych yn darganfod sut oedd pobl yn byw dros 100 mlynedd yn ôl a sut roedd plant y cyfnod yn derbyn eu haddysg. Bu hyn wedyn yn sail i'r dysgu am y tymor.

**Hwyl yn y Cyfnod Sylfaen**
Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen wedi mwynhau ystod o dasgau diddorol yn ystod y tymor. Roedd pob un ohonynt wrth eu boddau yn chwarae rôl ysgol ers talwm wrth iddynt ddysgu am hanes y Welsh Not.
Yn ystod sesiynau Dydd Llun Llanast a Dydd Gwener Mwdlyd maent wedi bod yn mwynhau dysgu yn yr awyr agored drwy gynllunio tasgau eu hunain. Dyma ychydig o luniau ohonynt yn mwynhau yn yr awyr agored.

# Newyddion Ffederasiwn Carno, Glantwymyn a Llanbrynmair














# Newyddion Ffederasiwn Carno, Glantwymyn a Llanbrynmair














# Darllen Dros Gymru



Da iawn Daisy, Nansi, Maci a Martha o ddosbarth Derwen a Sanna, Freya, Grace a Betsan o ddosbarth Helygen



Mae Daisy, Nansi, Maci a Martha o ddosbarth Derwen a Sanna, Freya, Grace a Betsan o ddosbarth Helygen yn ddarllenwyr brwd a dewiswyd hwy i gystadlu yn y gystadleuaeth **Darllen dros Gymru**. Er na lwyddodd y naill dîm na'r llall i fynd drwodd i'r rownd nesaf, cawsant hwyl garw yn trafod y llyfrau ***Dosbarth Miss Prydderch a'r Eisteddfod Genedlaethol*** ac ***Asiant A - Her Ll*** yng nghwmni Delyth Jones a Bethan Barlow.

*Daisy, Nansi, Maci and Martha from Derwen class and Sanna, Freya, Grace and Betsan from Helygen class are avid readers and were selected to compete in the Reading for Wales competition. Although neither team got through to the next round, they had a great time discussing the set books in the company of Delyth Jones and Bethan Barlow.*

# Ymweliad gan Aelodau o Gyngor y Dref Machynlleth

## Croeso i 'r Cyngh. Michael Williams ac Anne MacGarry o Gyngor Tref Machynlleth i'r Campws Cynradd




Ddydd Mawrth 25 Chwefror croesawyd y Cyngh. Michael Williams ac Anne MacGarry o Gyngor Tref Machynlleth i'r Campws Cynradd i gynnal gweithdy gyda disgyblion Blwyddyn 6. Fe wnaethon nhw drafod eu rôl o fewn Cyngor y Dref, cyn i'r disgyblion gael cyfle i gwblhau gweithgaredd er mwyn adnabod cyfrifoldebau Cyngor y Dref, Y Cyngor Sir, Y Cynulliad a Llywodraeth San Steffan. Nod eu hymweliad oedd clywed syniadau'r disgyblion ynglŷn â materion sydd angen gwella o fewn y dref. Cafwyd trafodaethau aeddfed yn ystod y gweithdy a rhannwyd pryderon ynghylch diogelwch wrth y groesfan ger Cae Crwn, cyfleusterau hamdden o fewn y dref a'u dyhead i weld parc sglefrio yn cael ei ddatblygu.

*On Tuesday 25 February we welcomed Cllr. Michael Williams and Anne MacGarry from Machynlleth Town Council to the Primary Campus where they held a workshop with Year 6 pupils. They first discussed their role within the Town Council, before pupils had the opportunity to complete an activity to identify the responsibilities of the Town Council, County Council, Assembly and Westminster Government. The aim of their visit was to hear the pupils' ideas about issues that need improvement within the town. Mature discussions took place during the workshop and concerns were raised regarding safety at the crossing at Cae Crwn. The children made it clear that they would like more leisure facilities in the town and would like to see a skate park developed.*

# Dysgu am Lwyth yr Ashaninka

## Croesawyd Mrs Claire Jenkins i siarad â'r dosbarth am ei chysylltiad â Llwyth Ashaninka ym Mheriw



Fel rhan o astudiaeth Dosbarth Helygen i newid hinsawdd, croesawyd Mrs Claire Jenkins i siarad â'r dosbarth am ei chysylltiad â Llwyth Ashaninka ym Mheriw. Yn ystod ei sgwrs hynod ddiddorol, fe wnaethon ni ddysgu am draddodiadau a ffordd o fyw'r llwyth brodorol hwn gan gynnwys eu bwyd, eu cartrefi a'u dillad. Dechreuodd cysylltiad Mrs Jenkins â'r llwyth hwn dros 40 mlynedd yn ôl, felly mae ganddo wybodaeth dda o'r newidiadau sydd wedi digwydd yn y rhanbarth hwn o Goedwig Law yr Amason ac effaith datgoedwigo ar fywyd bob dydd y bobl Ashaninka a'u hamgylchedd. Mae'r ysgol yn ddiolchgar iawn i Mrs Jenkins am rannu ei phrofiad.

*As part of Helygen Class's study on climate change, we welcomed Mrs Claire Jenkins to talk to the class about her connection with the Ashaninka Tribe in Peru. During her fascinating talk, we learned about the traditions and way of life of this indigenous tribe including their food, their homes and their clothes. Mrs Jenkins' connection with this tribe began over 40 years ago, so she has a good knowledge of the changes that have taken place in this region of the Amazon Rainforest and the impact of deforestation on the daily life of the Ashaninka people and their environment . The school is very grateful to Mrs Jenkins for sharing her experience.*

# Adran Daearyddiaeth

## Ymgynghoriad Parc Cenedlaethol Eryri: disgyblion yn dweud eu dweud




**Taith i'r Eidal, Gorffennaf 2020**

Mae pamdemig COVID-19 yn cael effaith pellgyrhaeddol ar bob elfen o'n bywydau ac felly ar gynlluniau'r adran i fynd ar daith i'r Eidal yn yr haf. Yn anffodus, mae'r daith wedi ei chanslo. Mae'r disgyblion a'r rhieni sydd wedi'u heffeithio yn cael eu diweddaru yn rheolaidd am y sefyllfa ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ad-dalu'r holl gostau. Petai gennych ymholiadau am y mater, cofiwch gysylltu gyda Miss Iona Thomas drwy e-bost office@brohyddgen.powys.sch.uk

Ymgynghoriad Parc Cenedlaethol Eryri: Disgyblion TGAU yn dweud ei dweud!

Ddydd Mercher 11 Mawrth croesawyd Emma Metcalf o Barc Cenedlaethol Eryri i'r adran Ddaearyddiaeth. Dyma beth oedd gan rai o'r disgyblion i'w ddweud yn dilyn ei hymweliad:

"Yn ddiweddar bu disgyblion blwyddyn 9 a 10 TGAU Daearyddiaeth yn cymryd rhan mewn ymgynghoriad am Gynllun Eryri – Cynllun Partneriaeth Cenedlaethol Eryri 2020. Daeth  Emma Metcalf i rannu gwybodaeth am y cynllun efo ni ac i holi ein barn. Mae'r Cynllun yn llawn gwybodaeth am y gwahanol elfennau sydd yn gwneud y Parc mor arbennig – elfennau fel iaith, celf, hamdden, hanes a'r tirwedd. Roedd yn ddiddorol clywed am yr holl elfennau hyn ac roeddwn yn falch iawn o roi fy marn ar ddyfodol y Parc. I rywun sydd yn byw ar ffin y Parc ac sydd yn mwynhau cerdded fyny mynyddoedd fel Cader Idris ac Yr Wyddfa roeddwn yn falch eu bod wedi gofyn am fy marn. Mae'n werth gweld copi papur neu electronig o'r Cynllun er mwyn gweld y ffotograffiaeth gwych o dirwedd Eryri. Mae'n ddiddorol iawn ac yn cyd-fynd yn berffaith efo'r gwaith rydym wedi'i wneud am dirwedd nodedig yng Nghymru, sef ucheldir Eryri, fel rhan o'r cwrs TGAU Daearyddiaeth."

Gan Gwern Phillips Bl.10

"Fis diwethaf, daeth Emma Metcalf o Barc Cenedlaethol Eryri i ymweld â ni. Daeth i siarad gyda ni am y Parc gan ein bod wedi astudio tirwedd nodedig yng Nghymru, ucheldir Eryri, ar gychwyn y cwrs TGAU! Dysgom am brydferthwch Eryri ac am fwriad y Parc i warchod a diogelu'r amgylchedd. Yn ogystal, cawsom bori drwy lyfryn ffeithiau am y Parc sydd wedi ei leoli yng ngogledd-orllewin Cymru ac yn ymestyn o Abergwyngregyn yn y gogledd i'r Bont Ddyfi sy'n ein milltir sgwâr ni! Mae'r Parc yn denu llwyth o dwristiaid ac yn bwysig iawn i'r economi yn lleol! Cawsom leisio ein barn am Eryri drwy gwblhau holiadur ar y we a mynegi ein barn am sut i ddatblygu'r Parc yn y dyfodol. Roedd yr ymgynghoriad yn ddiddorol, mae'n bwysig iawn fod plant, pobl ifanc a thrigolion lleol yn cael y cyfle i leisio'u barn am y Parc Cenedlaethol sydd yn ein hardal ni."

Gan Efa Bleddyn-Jones Bl.9

Erbyn i ***Ein Bro*** gael ei gyhoeddi bydd ymgynghoriad Cynllun Eryri wedi dod i ben, ond gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth yma:  https://www.eryri.llyw.cymru/authority/working-in-partnership/cynlluneryri?name=

# Geography Department



## Snowdonia National Parks consultation: pupils have their say



**Italy Fieldtrip, July 2020**

The COVID-19 pandemic is having a far reaching impact on all aspect of our lives including the department's plans to travel to Italy this summer. Unfortunately the trip has been cancelled. The affected pupils and parents are regularly updated on the situation and work is ongoing to reimburse all of the costs. If you have any queries regarding this matter contact Miss Iona Thomas via e-mail office@brohyddgen.powys.sch.uk

Snowdonia National Park's Consultation: GCSE pupils having their say!

On Wednesday 11th of March, Emma Metcalf from Snowdonia National Park, was welcomed to the Geography department. This is what some of the pupils had to say following her visit:

"Recently year 9 and 10 pupils took part in a consultation about Cynllun Eryri – Snowdonia's Partnership Plan 2020. Emma Metcalf came to share information about the plan with us and to ask for our opinion. The Plan is full of information about different elements that make the Park so special – elements like language, art, leisure, history and the landscape. It was very interesting to hear about these different elements and I felt proud to be able to share my opinion about the future of the Park. For someone who lives of the Parks' doorstep and who enjoys walking mountains like Cadair Idris and Snowdon I was pleased that they asked for my opinion. It is well worth seeing an electronic or paper copy of the Plan just to be able to admire the excellent photographs of Snowdonia's landscape. It is very interesting and coincides perfectly with the work we have done on a distinctive landscape in Wales, the Snowdonia uplands, as part of the GCSE Geography course."

By Gwern Phillips Yr.10

"Last month, Emma Metcalf from Snowdonia National Park came to visit us. She came to talk to us about the Park, as we had already studied a distinctive landscape in Wales, the Snowdonia uplands, at the start of the GCSE course! We learnt about the beauty of Snowdonia and about the Park's intention to protect the environment. We also browsed through a booklet about the Park which is located in north-west Wales and stretches from Abergwyngregyn in the north to Dyfi Bridge in our local area! We were able to have our say about Snowdonia by completing a web-based questionnaire and expressed our views on how to develop the Park in future. The consultation was interesting, it is very important that children, young people and local residents have the opportunity to have their say about the National Park that is on our doorstep."

By Efa Bleddyn-Jones Yr.9

By the time **Ein Bro** is published, the Cynllun Eryri consultation will have closed, for more information visit: https://www.snowdonia.gov.wales/authority/working-in-partnership/cynlluneryri?name=

# Diwrnod y Llyfr

## Diwrnod y Llyfr: dydd Iau 5 Mawrth



Gwahoddwyd pawb i ddod i'r ysgol wedi gwisgo fel cymeriad allan o lyfr ac i gyfnewid llyfrau; hefyd i gyfrannu £1 tuag at elusen i brynu llyfrau i ffoaduriaid. Dosbarthwyd tocynnau Diwrnod y Llyfr a daeth Diane Bailey o Siop Penrallt gyda llyfrau Diwrnod y Llyfr i'r plant ferdru cyfnewid eu tocyn am lyfr. Braf oedd gweld cymaint o blant wedi gwneud ymdrech gyda'u mynegiant creadigol o gymeriad allan o lyfr ac yn mwynhau pori drwy'r stondinau llyfrau oedd wedi eu gosod iddynt.

*Everyone was invited to come to school dressed as a character out of a book and swap books; also to donate £1 to a charity to buy books for refugees. World Book Day tickets were distributed and Diane Bailey from Penrallt Shop came with World Book Day books for the children to exchange their ticket for a book. It was great to see so many children making an effort with their creative expression of character from a book and enjoying browsing through the book stalls set out for them.*



# World Book Day










# Gwefannau ac Appiau Defnyddiol ar gyfer Datblygu Rhifedd

Er mwyn cynnig rhagor o gymorth i ddatlygu sgiliau rhifedd ein disgyblion, rydym yn eu hannog i wneud defnydd o rifedd y tu allan i'r ysgol. Dyma wefannau ac Apps rhifedd defnyddiol y gall disgyblion eu defnyddio i ddatblygu eu sgiliau rhif ynghyd â'r hyn sydd yn digwydd yn yr ysgol.




*Bedtime Math*


Mae'r cwestiynau ar *bedtime math* yn cael eu gofyn ar ffurf ysgrifenedig a rhaid i'r plenty ddehongli'r cwestiwn a darganfod y swm sydd angen i'w ateb. Mae'r cwestiynau hefyd wedi eu gwahaniaethu ar gyfer disgyblion gallu isel, canolig a disgyblion gallu uchel. Mae'r cwestiynau yn newid yn ddyddiol.




*Brainist Math Games*

Mae'r wefan *Brainist Math Games* yn wefan wych ar gyfer datblygu mathemateg pen disgyblion. Mae'n cynnwys cwestiynau lluosi, rhannu, adio a thynnu. Nod y gêm yw ateb cyfres o gwestiynau mewn cyn lleied o amser ag sy'n bosib.

Gwefan sydd yn cynnwys llawer o adnoddau adolygu TGAU Mathemateg gan gynnwys ***Who wants to be a Millionaire***, gêm a fydd yn ennyn diddordeb plant ac yn datblygu eu sgiliau rhif.




Motion Math

App defnyddiol ar gyfer datblygu rhif sydd yn cynnwys nifer o gemau gwahanol sydd yn hwyl i blant. Mae'r App gyda ffocws ar ddatblygu ffracsiynau ac mae'n dweud bod defnyddio'r App yma yn gwella ffracsiynau plant 15% ac agwedd plant tuag at fathemateg o 10%. Mae'r App yma yn ddefnyddiol i blant 2016 gan fwyafrif ohonynt fynediad i wahanol ffurf o'u defnyddio e.e. ffôn symudol, i-pods ar i-pads a.y.b.




# Useful Websites and Apps for Developing Numeracy Skills

*To further develop the numeracy skills of our pupils, we encourage them to make use of numeracy outside school hours. These are some useful Numeracy websites and Apps that pupils can use to develop their numeracy skills along with what is going on at school.*

***Bedtime Math***


*The questions on bedtime math are asked in a written format which requires the pupil to interpret the question and work out the sum needed to answer the question. The questions are differentiated for pupils of lower, medium and high ability learners. The question also changes daily.*




***Brainist Math Games***


*The 'Brainist Math Games' is an excellent website for developing mental maths. It includes multiplications, division, addition and subtracting questions. The objective of the game it to answer a series of questions as quickly as possible.*

*A website that includes a number of revision resources for GCSE Mathematics including '**Who Wants to be a Millionaire'** – a game that will interest children and develop their numeracy skills.*




***Motion Math***

*A useful App for developing numeracy skills as it includes a number of games that are fun for children. The App is focused on developing fractions; they claim that the use of this App improves their fractions by 15% and children's attitude towards mathematics by 10%. Apps are useful for children of 2016 as many of them have access to different ways of using Apps on mobile phones, i-pods and i-pads etc.*






# Ydy'ch plentyn chi'n feddyliwr? Ydy'ch plentyn chi'n gwestiynwr?

Ffaith: Rydych yn meddwl mwy wrth ofyn cwestiwn nac wrth ei ateb.
Ffaith: Mae athrawon yn gofyn 80 cwestiwn yr awr ar gyfartaledd. Mae dysgwyr o oed uwchradd yn gofyn 2 gwestiwn bob awr. Pwy sy'n gweithio galetaf?
Ffaith: I gael amser i ateb cwestiwn yn dda, mae angen amser meddwl cyn dweud yr ateb.
Ffaith: Dylai amser meddwl fod yn 3 eiliad o leiaf.


The Telegraph
Home Video News World Sport Finance Comment Culture Travel Life Women Fa
Politics | Investigations | Obits | Education | Science | Earth | Health | Defence | Scotland | Royal
HOME » NEWS » UK NEWS

Mothers asked nearly 300 questions a day, study finds

British mothers are called on by their children to answer more questions per hour than David Cameron does during Prime Minister's Questions, averaging 23 to Cameron's 22.

*Research shows mothers are the most quizzed people in the UK, and on subjects far and wide.*

*They are asked more questions every hour than a primary school teacher - 19 - as well as doctors and nurses, 18.*


*And the study discovered girls aged four are the most curious, asking an incredible 390 questions per day - averaging a question every 1 minute 56 seconds of their waking day.*

The Daily Telegraph


Mae datblygu dysgwyr chwilfrydig ac annibynnol yn rhywbeth mae pob ysgol yn anelu i'w wneud. Dyma'r dinasyddion fydd yn y dyfodol yn hyderus i gwestiynu a rhesymu'n effeithiol, ac felly hefyd yn datblygu sgiliau arweinyddol a datrys problemau gwych. Mae astudiaethau niferus yn dangos bod plant, lle bynnag maent yn byw, wrth fynd yn hŷn yn llai parod i gwestiynu ac yn mynd yn llai a llai chwilfrydig. Wedi dweud hynny, mae parhau i annog plant i ofyn cwestiynau yn rhywbeth i'w hybu, ac mae cyfraniad allweddol gan rieni i'w wneud ynghyd â'r ysgol.

Yn llyfr cyswllt pob plentyn ym mlynyddoedd 7-11 mae copi o'r poster "Sgiliau Gofyn Cwestiwn". Mae'r poster hwn yn ganllaw defnyddiol i annog a chefnogi'r dysgwyr i ddatblygu'u sgiliau cwestiynu. Mae'r diagram yn seiliedig ar Tacsonomi Bloom (http://www.nmmu.ac.za/cyberhunts/bloom.htm ). Mae'r cwestiynau lefel is yn gofyn am atebion yn seiliedig ar ddwyn i gof – e.e. "Sawl…?", "Faint…?", "Beth yw…?" tra mae'r cwestiynau lefel uwch yn gofyn am atebion yn seiliedig ar gymhwyso, creadigrwydd, dadansoddi a gwerthuso – e.e. **"Beth os…?", "Sut gallai….?", "Pam fyddai…?"**. Mae'r **cwestiynau lefel uwch (agored)** yn gofyn am waith meddwl a phwyso a mesur, tra mae'r cwestiynau lefel is (caeedig) yn gofyn am gyflwyno gwybodaeth. Mae gwerth i'r ddau fath o gwestiwn a dylid anelu i'w defnyddio mor aml a'i gilydd, ac hefyd annog y plant i ofyn y ddau fath o gwestiwn.

Fel rhiant, pan fydd eich plentyn yn gofyn cwestiynau, mae hyn yn rhywbeth i'w groesawu. Yn aml, gellid datblygu annibynniaeth y plentyn trwy ei annog i geisio darganfod atebion. Hon yw oes "Google", ac yn amlwg, mae llawer o atebion i'w canfod ar y we. Ond, mae ffynonellau eraill defnyddiol a gwerthfawr o wybodaeth hefyd – gwyddoniaduron, llyfrgell, ymweld â llefydd penodol, gofyn i bobl eraill ,i enwi ond rhai.




Cwestiynau sydd yn gallu ennyn trafodaeth ac yn gallu datblygu'r meddwl yw cwestiynau tebyg i rai Ian Gilbert a welir yn ei lyfr ***The Little Book of Thunks***. Mae'n werth ymweld â'r safle gwe **Thunks** http://www.thunks.co.uk/ lle mae sawl enghraifft o gwestiynau o'r fath. Gweler enghreifftiau uchod.




Mae athrawon yr ysgol eleni wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ofyn cwestiynau er mwyn datblygu dysgu'r disgyblion, ac hefyd ar sut i hyfforddi disgyblion eu hunain i ddatblygu'u sgiliau cwestiynu. Ydy'ch plentyn chi'n gallu egluro beth yw cwestiwn da?

Er mwyn datblygu mwy o ddealltwriaeth am sut mae'ch plentyn yn dysgu yn yr ysgol, isod mae yma gwestiynau y gallwch ofyn wedi iddo/iddi ddychwelyd gartref. Gall hyn osgoi y sgwrs fer mae mwyafrif helaeth o rieni'r wlad yn ei gael gyda'u plant:

***Rhiant:*** *"Beth wnest ti yn yr ysgol heddiw?"*

***Plentyn:*** *"Dim llawer"*

**Cwestiynau gall rhieni'u gofyn er mwyn datblygu dealltwriaeth am sut mae eu plant yn dysgu:**

- Pa dri pheth wyt ti wedi'u dysgu heddiw? Sut wnest ti eu dysgu?
- Beth oedd y peth gorau ddysgais di heddiw? Beth oedd yn dda amdano?
- Beth yw y gwaith rwyt ti wedi'i wneud orau heddiw? Beth oedd yn dda amdano?
- Beth oedd y gwaith mwyaf heriol wnes di heddiw? Sut wnes di oresgyn unrhyw anawsterau?
- Beth fues ti'n ei ddarllen heddiw? Beth ddysgais di wrth ddarllen hwn?



Millions saw the apple fall, but Newton was the one who asked why.
Bernard Baruch

# Is your child a thinker? Does your child ask questions?

Fact: You think more when asking a question than by answering it.
Fact: Teachers ask 80 questions an hour on average. Learners of secondary school age ask 2 questions an hour. Who works hardest?




Mothers asked nearly 300 questions a day, study finds

British mothers are called on by their children to answer more questions per hour than David Cameron does during Prime Minister's Questions, averaging 23 to Cameron's 22.

Fact: To answer a question well, thinking time is needed before answering.
Fact: Thinking time should be at least 3 minutes.

*Research shows mothers are the most quizzed people in the UK, and on subjects far and wide.*

*They are asked more questions every hour than a primary school teacher - 19 - as well as doctors and nurses, 18.*


*And the study discovered girls aged four are the most curious, asking an incredible 390 questions per day - averaging a question every 1 minute 56 seconds of their waking day.*

The Daily Telegraph


*Every school aims to develop inquisitive and independent learners. These will be, in the future, the citizens who will be confident to question and reason effectively, and will therefore have developed excellent leadership and problem-solving skills. Many studies show that children, wherever they live, are less likely to ask questions and become less inquisitive as they grow older. After saying that, encouraging children to ask question is very important, and parents as well as the school can make a significant contribution with regards to this.*

*In the contact book of each pupil in years 7-11 there's a copy of the poster "Questioning Skills". This is a very useful poster to encourage and support learners to develop their questioning skills, and is based on Bloom's Taxonomy (http://www.nmmu.ac.za/cyberhunts/bloom.htm ). The lower order questions ask for answers which are based on recall – e.g. "How many…?", "What is…?" whereas higher order thinking questions require answers based on application, creativity, analysis and evaluation e.g. "What if…?", "How could…?", "Why would…?". The higher order questions (open) ask for thinking and consideration, whereas the lower order questions (closed) ask for information to be presented. There is value in both types of questions, and we should aim to use both together as often as possible, and also encourage children to ask both types of questions.*

*As a parent, when your child asks questions, this is something to encourage. Often, the child's independence may be developed by encouraging him/her to seek the answers. This is the age of "Google", and obviously, many answers are to be found on the internet. However, there are also other valuable sources of knowledge – encyclopaedias, library, visit relevant places, asking people to name but a few.*




*Questions which may encourage discussion and develop thinking skills are questions similar to those asked by Ian Gilbert in his book **The Little Book of Thunks.** It's worth visiting the **Thunks** website [http://www.thunks.co.uk/](http://www.thunks.co.uk/) where there are several examples of these types of questions. Some examples may be seen above.*




*This year, the teachers at the school have received training on how to ask questions to develop the pupils' learning, and also on how to train pupils themselves to develop their questioning skills. Can your child explain what is a good question?*

*To develop further understanding about how your child learns at school, below are questions you may wish to ask at the end of the school day. This may be a way of avoiding the short conversation many parents nationally have daily with their children:*

***Parent:*** *"What did you do in school today?"*

***Child:*** *"Not a lot"*

***Questions parents can ask to develop understanding of how your child learns:***

1. *What three things did you learn today? How did you learn these?*
2. *What was the best thing you learnt today? What was good about this?*
3. *What work did you do best today? What was good about this work?*
4. *What was the most challenging work for you today? How did you overcome any difficulties?*
5. *What did you read today? What did you learn by reading this?*



Millions saw the apple fall, but Newton was the one who asked why.

Bernard Baruch

Ysgol Bro Hyddgen



Ymweliad Ryan Giggs / Ryan Giggs Visit



Dathlwyd Dydd Miwsig Cymru mewn steil yng nghwmni'r band Candelas ar lwyfan y Campws Uwchradd. 'Yn Gymraeg mae'i morio hi'!